


Atodiad F - Y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth: Aseiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Cymraeg 2050 yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo'n llwyr i'r strategaeth newydd, gyda'r targed o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae iaith Gymraeg ffyniannus hefyd wedi'i chynnwys yn un o'r 7 nod llesiant yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gennym hefyd rwymedigaeth statudol i ystyried yn llawn effeithiau ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut mae ein polisiau'n effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Mae tair thema gydgysylltiedig i [strategaeth Cymraeg 2050](#):



Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu cwrpas gweithgareddau sy'n gallu effeithio ar yr iaith.

Yn gyffredinol, os oes gan eich polisi'r potensial i effeithio ar bobl, bydd yn effeithio mewn rhyw ffordd ar siaradwyr Cymraeg ac felly ar y Gymraeg.

1. **Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (a gwblhawyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: Safonau.Standards@gov.wales):**

04/02/2024

2. **A yw'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr Cymraeg a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021?**

Mae'r asesiad effaith hwn yn ystyried tri darn o waith cysylltiedig o dan Raglen Ailgydbwysio Gofal a Chymorth Llywodraeth Cymru:

- creu Cod Ymarfer newydd sy'n cynnwys fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth
- adolygu rhannau o God Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol)
- creu Swyddfa Genedlaethol newydd ar gyfer Gofal a chymorth o fewn y Llywodraeth.

Pan ddaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('y Ddeddf') i fodolaeth, rhoddodd Gweinidogion Cymru ymrwymiad y byddai'r rheoliadau a'r canllawiau sy'n sail i'r Ddeddf yn rhoi sylw dyledus i'r Gymraeg. O ganlyniad, mae rheoliadau, codau ymarfer a chanllawiau statudol a gyhoeddir o dan y Ddeddf i gyd yn seiliedig ar yr egwyddorion a nodir yn y Ddeddf, sy'n cynnwys dyletswydd gyffredinol yn adran 6(2)(c) bod rhaid i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaeth o dan y Ddeddf 'ystyried nodweddion diwylliant a chred yr unigolyn sy'n cynnwys iaith'.

Mae egwyddorion allweddol "Mwy na Geiriau"¹ wedi'u gwreiddio yn y Ddeddf, sef bod yn rhaid i bob person a sefydliad sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol ystyried hawl pobl i gyfathrebu yn Gymraeg os ydynt yn dymuno. Mae'r Cynnig Rhagweithiol yn un o egwyddorion allweddol Mwy na Geiriau ac mae'n rhoi'r cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg, yn hytrach nag ar y claf, y defnyddiwr gwasanaeth neu'r teulu i orfod gofyn amdanynt. Mae hyn yn cryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn y gymuned.

Un o brif amcanion ein cynigion yw bod comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth yn rhoi'r unigolyn wrth galon y broses gomisiynu ar sail yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw, gan gynnwys eu hanghenion iaith. Rhaid i bob person a sefydliad sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol ystyried hawl pobl i gyfathrebu yn

¹ *Mwy na geiriau* yw strategaeth Llywodraeth Cymru i gryfhau a datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Gymraeg os ydynt yn dymuno. Ar ben hynny, mae'r codau a gyhoeddir o dan y Ddeddf yn darparu ar gyfer y rheini sy'n dymuno cael eu cyswllt ag awdurdodau lleol mewn perthynas â'u gofal drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gael effaith gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith yn bennaf.

Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar unrhyw berson sy'n arfer ei swyddogaethau i geisio hybu llesiant unigolion, gan gynnwys dyletswydd i roi sylw i nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn (gan gynnwys iaith). Mae hyn yn cryfhau'r gwaith o hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg er mwyn gwella llesiant pobl ac ansawdd gofal a chymorth. I adlewyrchu hyn, mae'r cod comisiynu newydd yn pwysleisio'r ddyletswydd hon i gynnig gwasanaethau a chefnogaeth Gymraeg i unigolion.

Gwella gwasanaethau Cymraeg i ddinasyddion

Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod y defnydd o'r Gymraeg yn rhan o'r broses o asesu anghenion gofal a chymorth pobl. I lawer o siaradwyr Cymraeg, mae iaith yn elfen annatod o'u gofal a'u cymorth, e.e. mae rhai pobl yn agored i niwed a gall rhoi'r cyfle iddynt gynnal cyswllt drwy gyfrwng y Gymraeg gyfrannu at gael gwared â'u pryder. Cyfrifoldeb y gwasanaethau cymdeithasol yw darparu gwasanaethau priodol sy'n diwallu anghenion iaith y derbynwyr, gan gynnwys pan fydd gwasanaethau'n cael eu comisiynu a'u darparu gan sefydliadau eraill yn y sector preifat a'r trydydd sector.

Mae'r ffordd y mae'r cod newydd wedi cael ei ddrafftio yn golygu bod y gofynion yn y Ddeddf yn berthnasol i gomisiynu gwasanaethau ac i'r egwyddorion a'r safonau a nodir yn y cod. Mae'r Ddeddf yn datgan bod rhaid i unrhyw berson sy'n arfer swyddogaeth o dan y Ddeddf roi sylw i nodweddion diwylliant a chred yr unigolyn, sy'n cynnwys iaith. I'r perwyl hwn, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl, drwy'r egwyddorion a'r safonau a nodir yn y cod hwn a'r ailadrodd penodol ar ofynion o ran y Gymraeg a Mwy Na Geiriau y bydd mwy o wasanaethau ar gael yn Gymraeg i ddiwallu anghenion iaith poblogaethau yng Nghymru.

I sicrhau cysondeb, mae cymalau cenedlaethol safonol wedi cael eu datblygu y mae'n rhaid i gomisiynwyr eu defnyddio yn eu contractau gyda darparwyr. Bydd hyn yn sicrhau bod dull gweithredu safonol ar draws Cymru ar gyfer y gofynion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau Cymraeg.

Cod Ymarfer y Fframwaith Cenedlaethol

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn God Ymarfer statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bydd felly'n gosod gofyniad statudol ar gomisiynwyr i gefnogi'r gweithlu'n weithredol i gyfathrebu yn Gymraeg beth bynnag fo lefel eu Cymraeg, ac yn cefnogi'r gweithlu'n weithredol i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Yn unol â fframwaith strategol Mwy na Geiriau, fel y nodwyd yn Rhan 8 o Ddeddf 2014, bydd Cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol yn sicrhau strategaeth recriwtio a chadw

effeithiol i sicrhau'r gallu i ddarparu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd gallu darparwyr annibynnol a darparwyr trydydd sector i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg hefyd yn ystyriaeth pan fydd gwasanaethau'n cael eu comisiynu neu eu contractio oddi wrthynt.

Wrth ystyried y materion uchod, rhaid i awdurdodau lleol hefyd ystyried cyflwr y farchnad i wasanaethau rheoleiddiedig sy'n cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai hyn gysylltu'n ôl â'r asesiad o anghenion y boblogaeth, a fydd wedi nodi'r galw am wasanaethau Cymraeg, ac â'r asesiad digonolrwydd a fydd wedi edrych ar argaeledd gofal a chymorth ehangach a ddarperir yn Gymraeg. Rhaid i'r asesiad o sefydlogrwydd y farchnad ystyried sut mae hyn yn effeithio ar ddigonolrwydd gwasanaethau rheoleiddiedig yn Gymraeg, ac unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth; ansawdd y gwasanaethau hynny; sut gallai tueddiadau ar hyn o bryd neu yn y dyfodol yn y farchnad effeithio ar ddarparu gwasanaethau rheoleiddiedig sy'n darparu gofal a chymorth i'r gymuned Gymraeg; unrhyw heriau a risgiau; ac effaith penderfyniadau comisiynu a chyllido awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ar wasanaethau rheoleiddiedig drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cod Ymarfer Rhan 2

Cyhoeddwyd Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) yn wreiddiol yn 2015, i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Ddeddf, ac mae fersiwn ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi o dan y Rhaglen Ailgydbwysu Gofal a Chymorth. Cyfeirir at fframwaith *Mwy na geiriau* bedair gwaith yn y Cod hwn.

Mae Pennod 1 yn disgrifio dyletswyddau llesiant a dyletswyddau cyffredinol y Ddeddf. Cyfeirir at *Mwy na geiriau* mewn perthynas â'r ddyletswydd gyffredinol o dan adran 6(2)(c) o'r Ddeddf (rhoi sylw i nodweddion, diwylliant a chred, gan gynnwys iaith er enghraifft) – yn enwedig yr amcan o weithredu dull systematig o weithredu gwasanaethau Cymraeg fel elfen annatod o gynllunio a darparu gwasanaethau.

Mae Pennod 2 yn gosod gofynion ar awdurdodau lleol (ac, ym Mhennod 2B, ar eu byrddau iechyd partner) i gynnal asesiad o anghenion pobl yn eu rhanbarth am ofal a chymorth a gwasanaethau ataliol. Mae'r Cod yn ei gwneud yn glir, wrth gynnal yr asesiadau hyn, ei bod yn rhaid iddynt sefydlu i ba raddau y mae angen gofal a chymorth ar bobl (a gofalwyr sydd angen cymorth) yn y Gymraeg, yn ogystal â'r ystod a'r lefel o wasanaethau y bydd angen iddynt eu darparu er mwyn diwallu anghenion eu poblogaeth Gymraeg ei hiaith. Mae hyn yn cynnwys nodi ble mae bylchau yn y ddarpariaeth. Rhaid i'r adroddiad asesu anghenion y boblogaeth hefyd nodi'r camau sy'n ofynnol i ddarparu ystod a lefel y gwasanaethau a nodir drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cod yn cyfeirio'n benodol at yr egwyddor yn *Mwy na geiriau* bod rhaid i systemau cynllunio fframwaith gynnwys cyfeiriad at broffil ieithyddol eu cymunedau a sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu wrth ddarparu gwasanaethau.

Mae'r Cod diwygiedig yn cynnwys Pennod 5 newydd sy'n canolbwyntio'n benodol ar ymgysylltu, llais a chydgyhyrchu. Mae hyn yn cynnwys gofyniad newydd ar awdurdodau lleol i gymryd camau, yn unol ag egwyddorion *Mwy na geiriau*, i annog siaradwyr Cymraeg i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a darparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol. Dylai hyn fod yn rhan annatod o'u dyletswydd gyffredinol i hyrwyddo cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr di-dâl, dan adran 16(1)(c) y Ddeddf.

Ym Mhennod 6, ar y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth, mae gofyniad bod yn rhaid i'r gwasanaeth fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg a chyd-fynd ag egwyddorion *Mwy na geiriau*.

Y Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth

Bydd gan y Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth, sy'n cael ei sefydlu o fewn Llywodraeth Cymru ac a fydd yn cael ei sefydlu ym mis Ebrill 2024, gylch gwaith i gefnogi gweithredu'r Fframwaith Cenedlaethol a gweithio gyda chomisiynwyr i weithio'n unol â'r egwyddorion a'r safonau a nodir yn y Fframwaith Cenedlaethol. Gan fod y Swyddfa Genedlaethol yn cael ei sefydlu o fewn y Llywodraeth, bydd gofyn iddi weithio yn unol â pholisi iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru ac yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg a Mwy Na Geiriau. Yn ogystal, yn unol â'r argymhellion a wnaed gan y Grŵp Arbenigol yn ei adroddiad *Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru*, cynigir y bydd angen ystyried y cymysgedd staff sy'n gweithio yn y Swyddfa Genedlaethol i sicrhau bod aelodau staff sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf yn y tîm er mwyn sicrhau, yn ôl y gofyn, y gellir cynnal busnes y Swyddfa Genedlaethol yn newis iaith pwy bynnag sy'n cysylltu â'r Swyddfa.

3. **Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg ac eglurwch sut byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau i'r Gymraeg.** Sut bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)? Dylech nodi eich ymatebion i'r canlynol wrth ateb y cwestiwn hwn, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall:
Sut bydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith² (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)?

Sut bydd y cynnig yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)?

² Gall y rhain fod yn gymunedau gwledig clos, rhwydweithiau cymdeithasol gwasgaredig mewn lleoliadau trefol, ac yn gymunedau rhithiol sy'n ymestyn dros ardaloedd daearyddol.

Sut bydd y cynnig yn effeithio ar y gwasanaethau³ sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)? (ee iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafndiaeth, tai, digidol, ieuencid, seilwaith, yr amgylchedd, llywodraeth leol ac ati)

Sut byddwch chi'n sicrhau bod pobl yn gwybod am wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'u bod yn gallu cael gafael arnynt a'u defnyddio mor hawdd ag y gallant yn Saesneg? Pa dystiolaeth / data ydych chi wedi'u defnyddio fel sail i'ch asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau buddiant Cymraeg?

**Pa dystiolaeth arall fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?
Sut bydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith⁴ (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)?**

Sut bydd y cynnig yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)?

Sut bydd y cynnig yn effeithio ar y gwasanaethau⁵ sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)? (ee iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafndiaeth, tai, digidol, ieuencid, seilwaith, yr amgylchedd, llywodraeth leol ac ati)

Gweler 5 isod

4. Sut byddwch chi'n sicrhau bod pobl yn gwybod am wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'u bod yn gallu cael gafael arnynt a'u defnyddio mor hawdd ag y gallant yn Saesneg? Pa dystiolaeth / data ydych chi wedi'u defnyddio fel sail i'ch asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau buddiant Cymraeg?

Gweler 5 isod

5. Pa dystiolaeth arall fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?

Cod Ymarfer y Fframwaith Cenedlaethol

³ Nod Strategaeth y Gymraeg yw cynyddu ystod y gwasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a gweld cynnydd yn y gwasanaethau Cymraeg a ddefnyddir.

⁴ Gall y rhain fod yn gymunedau gwledig clos, rhwydweithiau cymdeithasol gwasgaredig mewn lleoliadau trefol, ac yn gymunedau rhithiol sy'n ymestyn dros ardaloedd daearyddol.

⁵ Nod Strategaeth y Gymraeg yw cynyddu ystod y gwasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a gweld cynnydd yn y gwasanaethau Cymraeg a ddefnyddir.

Yn ystod yr ymgynghoriad, codwyd pwynt gan un Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ein bod, yn Mwy Na Geiriau ac yn y cymalau iaith Gymraeg cenedlaethol a ddatblygwyd yn unol â'r Cod hwn, yn dal i ddefnyddio'r term dewis iaith yn hytrach nag angen iaith. Teimlwyd y gallai hyn gael effaith negyddol o ran diwallu angen ac y dylid bod yn defnyddio 'angen iaith' i leihau'r hyblygrwydd y mae 'dewis iaith' yn ei ganiatáu.

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol wedi defnyddio'r derminoleg a ddefnyddir yn Mwy Na Geiriau i gynnal cysondeb â'r dull cenedlaethol trosfwaol hwn a nodir yn Mwy Na Geiriau. Mae swyddogion, yn cynnwys cydweithwyr o'r Uned Polisi Iaith Gymraeg, wedi cwrdd â'r Cyfarwyddwr dan sylw a phenderfynwyd y dylid trafod y mater hwn ym Mwrdd Cynghori Mwy Na Geiriau sydd newydd ei ffurfio. Os cytunir bod y derminoleg sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd i gael ei mabwysiadu, yna bydd y derminoleg yn y Fframwaith Cenedlaethol yn cael ei diwygio yn unol â hynny.

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol eraill yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac roedd llawer o'r ymatebion a gafwyd yn teimlo ei bod yn bwysig ailadrodd gofynion ynghylch y Gymraeg yn y Cod.

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaethau gofal a chymorth yn newis iaith pobl. Mae iaith yn elfen hanfodol i bobl o ran diwallu eu hanghenion gofal a chymorth, sicrhau hawliau a gallu defnyddio eu hiaith eu hunain i gyfathrebu a chymryd rhan yn eu gofal fel partneriaid cyfartal.

Rhaid i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn hawl ac yn fater o angen a rheidrwydd, nid dewis. Mae hyn yn hanfodol ar draws pob grŵp oedran a demograffeg ac mae'n bwysicach fyth i'r rhai mwyaf agored i niwed, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae cyfran uchel o bobl sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

Mae'r Fframwaith yn cryfhau ac yn cefnogi'r cynnig rhagweithiol a **Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr Cymraeg drwy** ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol:

- peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- ceisio darparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn llawn yn eu bywyd bob dydd;
- cymryd pob cam rhesymol i ddarparu gofal a chymorth Cymraeg lleol/cymunedol a **rhaid** adlewyrchu digonolrwydd y gofal a'r cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr asesiadau o anghenion y boblogaeth a'r cynlluniau ardal ar y cyd gan gynnwys sut y bydd comisiynwyr yn gwella ac yn cynyddu lefel y gwasanaethau a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg ar sail yr angen a nodir;
- cydymffurfio â'r holl ddyletswyddau a rhwymedigaethau iaith Gymraeg sydd wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth, codau ymarfer a chanllawiau statudol sy'n cael eu cyhoeddi, a rhoi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol eraill.

Un o nodau craidd y fframwaith yw sicrhau bod pobl sydd ag angen gwasanaethau yn Gymraeg yn cael 'cynnig rhagweithiol'. 'Cynnig Rhagweithiol' yw pan fydd gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Mae'n golygu bod darparwyr yn naturiol yn rhagweld anghenion siaradwyr Cymraeg. Nid ydynt yn aros i

person ofyn am wasanaeth yn Gymraeg ond maent yn ymgorffori ac yn hyrwyddo'r gred bod yn rhaid ystyried bod y gallu i ddefnyddio eich iaith eich hun yn elfen graidd o'ch gofal ac nid yn ddewis ychwanegol, os ydych chi'n siarad Cymraeg.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn arbennig o gefnogol i gynnwys y ddau baragraff canlynol:

Rhaid i Awdurdodau Lleol a'r GIG lynu wrth ofynion Mwy Na Geiriau a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wrth gynllunio a darparu gwasanaethau gofal a chymorth a sicrhau eu bod yn arfer y 'cynnig rhagweithiol', gan gynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn hytrach na bod rhaid i bobl ofyn am hynny.

Cydnabyddir y gall fod yn heriol i rai darparwyr fodloni'r cynnig rhagweithiol, fodd bynnag, **rhaid** i gomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau annog y gweithlu i gyfathrebu yn Gymraeg beth bynnag yw lefel eu Cymraeg, ac annog y gweithlu i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Dylai'r gofynion a'r canllawiau yng Nghod Ymarfer Rhan 2, os cânt eu gweithredu'n llawn gan awdurdodau lleol (a, lle bo'n briodol, eu byrddau iechyd partner), gael yr effaith gadarnhaol ganlynol ar y rhai sydd ag angen gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol drwy gyfrwng y Gymraeg:

- Dylai'r gofynion ym Mhennod 2, ar asesiadau o anghenion y boblogaeth, arwain at awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn cynhyrchu adroddiad asesu rhanbarthol o anghenion y boblogaeth sy'n nodi'n glir lefel y galw am ddarpariaeth gofal a chymorth yn y Gymraeg yn y rhanbarth, ac ystod a lefel y gwasanaethau y bydd angen eu darparu yn Gymraeg i ddiwallu'r angen hwnnw.
- Dylai'r gofyniad newydd ym Mhennod 5, i gymryd camau i annog siaradwyr Cymraeg i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio a darparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol, arwain at gynnwys siaradwyr Cymraeg yn fwy gweithredol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau ar lefel strategol a lleol.
- Dylai'r gofyniad ym Mhennod 6 i'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg arwain at wasanaeth gwirioneddol ddwyieithog, sy'n golygu y gall siaradwyr Cymraeg gael gafael ar y wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt yn Gymraeg heb orfod gwneud cais.

Y Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth

Bydd y Swyddfa Genedlaethol, pan gaiff ei sefydlu, yn cyd-fynd â'r canlynol a, lle bo hynny'n berthnasol, yn galluogi cyflawni amcanion ar draws y system, gan gynnwys:

- Ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu
- Ymrwymadau'r Cytundeb Cydweithio
- Y pum ffordd o weithio a nodir yn Neddff Cenedlaethau'r Dyfodol
- Gan gyflawni dyletswyddau cyfreithiol o dan Safonau Iaith Gymraeg Gweinidogion Cymru, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant, gan gydnabod bod y Gymraeg yn

- perthyn i bawb a phwysigrwydd dewis iaith ac angen iaith wrth ddarparu gofal a chymorth o safon sy'n cyd-fynd â Fframwaith Mwy na Geiriau
- Cymru Iachach.

Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn gwreiddio ac yn cefnogi'r fframwaith strategol ar gyfer y Gymraeg, Mwy na Geiriau 2022-27. Wrth wneud hynny, bydd y Swyddfa Genedlaethol yn gweithio gyda'r sector i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol ac i gefnogi siaradwyr Cymraeg i dderbyn gofal yn eu hiaith gyntaf. Gan y bydd y Swyddfa Genedlaethol wedi'i lleoli o fewn Llywodraeth Cymru, bydd gofyn i staff yn y Swyddfa Genedlaethol weithio yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru gan gynnwys ei pholisi iaith Gymraeg. Yn ogystal, bydd y staff yn y Swyddfa Genedlaethol yn cynnwys siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf a dysgwyr Cymraeg.

Ystyriwyd bod yr angen i ganolbwyntio ar y system addysg Gymraeg yn ffordd o sicrhau bod mwy o gyfleoedd a llwybrau gyrfu lle mae'r Gymraeg yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu gwasanaethau'n effeithiol, yn enwedig yn y sector gofal.

Gwelwyd bod dod o hyd i ddarpariaeth gwasanaeth Cymraeg yn her yn y sector yn enwedig pan nad oes cymhellion ychwanegol i'r rhai sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r rhai sy'n dysgu, gan gydnabod nad yw cyflogau ac amodau o fewn y sector yn ffafriol ac felly nad ydynt yn gymhelliad i weithwyr gofal ddysgu Cymraeg. Fodd bynnag, mae nifer o gyfleoedd ar gael i gefnogi gweithwyr gofal i ddysgu Cymraeg a chynyddu'u hyder wrth siarad Cymraeg ac mae'n rhaid i gyflogwyr ddeall manteision hyn i'w gweithlu ac i'r bobl y maent yn eu cefnogi.

Mae cyfleoedd am ddim ar gael i weithwyr gofal cymdeithasol ddysgu Cymraeg, er enghraifft drwy gynllun Gofal Cymdeithasol Cymru i greu cwrs Cymraeg ar-lein newydd ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol.

O ran deunyddiau atodol sy'n amlygu'r Gymraeg mewn ffordd hygyrch (fideos ac ati) mae gan Gofal Cymdeithasol Cymru adran 'defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith' ar ei wefan. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac mae'n cynnwys adnoddau amrywiol y gall gweithwyr gyfeirio atynt, er enghraifft wrth gyflwyno'r cynnig rhagweithiol. Mae hefyd yn cynnwys fideos gan weithwyr gofal cymdeithasol a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol yn siarad am bwysigrwydd y Gymraeg yn y lleoliadau hyn. Maent hefyd ar gamau olaf cwblhau adnodd e-ddysgu ar pam mae'r Gymraeg mor bwysig ac mae ganddynt brosiect cyflogwyr sy'n anelu at gefnogi cynllunio'r gweithlu mewn perthynas â'r Gymraeg.

O ran cymorth ymarferol arall ynghylch deunyddiau recriwtio sy'n annog siaradwyr Cymraeg i wneud cais am swyddi ym maes gofal cymdeithasol, byddwn yn ystyried hyn fel rhan o drafodaethau ehangach gyda Gofal Cymdeithasol Cymru yng nghyd-destun eu gwaith presennol i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol, a ddisgrifir uchod. Lansiwyd ymgyrch benodol Gofalwn Cymru yn gynharach eleni ac mae'r asedau ar gyfer hyn yn dal ar gael pe bai angen ymgyrch arall. Mae Gofalwn Cymru yn tynnu sylw'n rheolaidd at bwysigrwydd y Gymraeg fel rhan o'u presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol a'u hymgyrchoedd parhaus.

♦ **Sut byddwch chi'n gwybod a yw eich polisi'n llwyddiant?**

Bydd gan y Swyddfa Genedlaethol gylch gwaith i gefnogi gweithredu'r fframwaith cenedlaethol a monitro bod comisiynwyr yn gweithio'n unol ag ysbryd y Cod. Bydd yn bosibl felly cael barn ar lefel genedlaethol ar y cynnydd o ran gweithredu ac i rannu arfer da ac enghreifftiau o ble mae ymdrechion wedi arwain at fwy o weithwyr gofal sy'n siarad Cymraeg. Bydd y tîm polisi perthnasol yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio hefyd yn parhau i fonitro'r asesiadau o anghenion y boblogaeth (yn ogystal ag adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad a chynlluniau ardal ar y cyd) a gynhyrchir gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd ar sail ranbarthol.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn casglu data am weithwyr gofal a'u galluedd ieithyddol. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a bydd yn cael gafael ar y data hwn a fydd yn darparu set ddata flynyddol i fesur tueddiadau a mesur y cynnydd mewn gweithwyr gofal sy'n siarad Cymraeg.

Mae adroddiad blynyddol Mwy Na Geiriau yn cael ei gynhyrchu ac unwaith eto, bydd hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Swyddfa Genedlaethol am gyflwyno Mwy Na Geiriau yn y sector, a gellir monitro tueddiadau'n flynyddol i olrhain cynnydd.